



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Gymunedol Gilwern

**Cae Meldon
Gilwern
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 0AY**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Gilwern

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Gymunedol Gilwern
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Fynwy
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	213
Disgyblion o oed ysgol statudol	189
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	*
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	5.2%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	12.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad penodi'r pennaeth	03/01/2000
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	03/10/2022

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Gilwern. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol cryf. Maent yn ymgysylltu â bywyd ysgol yn gyflym ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gilydd ac oedolion. Maent yn hapus ac yn hyderus wrth ddysgu dan do ond yn enwedig yn ardaloedd awyr agored deniadol yr ysgol. At ei gilydd, maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ystod eang o fedrau o'u manau cychwyn unigol. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â llawer o'r profiadau y mae'r ysgol yn eu darparu. Yn benodol, maent yn mwynhau gweithgareddau fel cerddoriaeth ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu creadigrwydd. Hefyd, maent yn parhau i adeiladu'n dda ar eu medrau rhifedd ac yn dysgu sut i gymhwyso'r rhain mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud fel darllenwyr ac ysgrifenydd, ac wrth iddynt fynd yn hŷn, mae agweddau at ddysgu lleiafrif o ddisgyblion hŷn, yn enwedig bechgyn, yn mynd yn llai cadarnhaol mewn gwersi yn y dosbarth.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n gweddu i ysbryd a dyheadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Gwelir enghreifftiau o hyn ym mhrosiect creadigol 'Gilwern Around the World'. Mae trefniadau i ddatblygu agweddau ar fedrau creadigol disgyblion yn gryf, ar y cyfan, ac yn aml yn cael eu hystyngiwr gan wersi arbenigol. Mae addysgu a phrofiadau dysgu ar gyfer disgyblion o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 2 yn effeithiol, ar y cyfan. Fodd bynnag, maent yn llai llwyddiannus o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 lle nad ydynt bob amser yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cystal ag y gallent mewn agweddau pwysig ar eu dysgu neu mewn datblygu ymddygiadau dysgu effeithiol. Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn gryf. Mae'n sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael amgylchedd gofalgwr ac anogol, ac yn datblygu synnwyr o gyfrifoldeb fel dinasyddion Cymru a'r byd. Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer addysg a lles yr holl ddysgwyr. Ymgorfforir hyn yng nghynnig cwricwlwm yr ysgol. Maent wedi creu ethos tîm cryf fel bod pob aelod o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn hyderus i gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol. Y tu hwnt i'r ysgol, mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda'r clwstwr ysgolion lleol i ymgymryd â dysgu proffesiynol buddiol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gweithredu gwelliannau cynlluniedig yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw eu prosesau i werthuso safon yr addysgu yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi nodi gwendidau pwysig yn yr addysgu a ddarperir ar gyfer disgyblion hŷn. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rolau yn bwrpasol. Maent yn cynorthwyo disgyblion i gael llais mewn materion lleol y tu hwnt i gatiâu'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Argymhellion

- A1 Gwella addysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6
- A2 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, yn enwedig o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6
- A3 Gwella prosesau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd addysgu
- A4 Mynd i'r afael â'r mater diogelwch ar y safle a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

Prif werthusiad

Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Gilwern. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn briodol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r cynnydd a wnânt yn rhy amrywiol. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion hŷn, yn enwedig bechgyn, yn gwneud y cynnydd y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sydd o leiaf ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae gan ychydig iawn ohonynt fedrau lleferydd ac iaith llai datblygedig, ac mae angen cymorth ar ychydig iawn ohonynt i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn ymgynffwrdd â bywyd ysgol yn gyflym, ac yn ymgysylltu'n bwrpasol ag ystod y profiadau uniongyrchol a'r gweithgareddau dysgu ymarferol a ddarperir gan yr ysgol.

Yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac mae ganddynt fedrau iaith a chyfathrebu da am eu hoedran. Maent yn rhyngweithio'n llwyddiannus ag oedolion, ac â'i gilydd. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o addasu eu siarad at wahanol ddibenion, ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth gyflwyno darllediad teledu am 'newyddion sy'n torri' am eu darganfyddiad dychmygus o Tsieina. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc yn hyderus wrth rannu eu syniadau. Fodd bynnag, yn aml, maent yn amharod i adeiladau ar awgrymiadau disgyblion eraill, a'u datblygu, neu gynnig cyfraniadau estynedig mewn trafodaethau grŵp.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn ymuno'n frwdfrydig ag ail-ddweud storïau cyfarwydd, gan amrywio eu mynegiant, fel y dangosir gan oedolion. Erbyn Blwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi seiniau a chyfuniadau cychwynnol. Yn gyffredinol, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn darllen ag annibyniaeth addas ac yn cynnal diddordeb yn eu gweithgareddau darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn mwynhau darllen. Maent yn siarad yn briodol am hoff awduron ac yn darllen nofelau hwy wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes ganddynt hyder wrth ddarllen ar goedd ac nid oes ganddynt afael gadarn ar strategaethau y gallant eu defnyddio i ddarganfod ystyr geirfa anghyfarwydd. Mae gwaith disgyblion hŷn mewn llyfrau wrth ymateb i ddarllen wedi'i gyfyngu i ddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r testun ac i adalw gwybodaeth o ddarnau byr. Mae hyn yn golygu nad yw eu gallu i lunio casgliad o destunau mwy cymhleth, a gwerthfawrogi a gwerthuso pa mor effeithiol y mae awduron yn cyfleu syniadau ac yn ennyn diddordeb y darllenydd, wedi'i ddatblygu cystal ag y gallai fod.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau a phatrymau llythrennau i'w helpu wrth ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn defnyddio cysyllteiriau syml i drefnu eu syniadau yn ddilyniant o frawddegau, ac yn aml yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen rugl a destlus yn gyflym,

ac yn ymfalchïo mewn cyflwyno'u gwaith. Mae disgyblion mewn dosbarthiadau o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn datblygu gallu technegol cadarn i ysgrifennu. O gael y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau iaith mynegiannol, cryf. Mae ganddynt eirfa helaeth ac maent yn ei defnyddio'n dda i ychwanegu delweddau at eu gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn aml yn ysgrifennu mewn ystod gyfyng o genres, fel adroddiad, dyddiadur a llythyr. Yn aml, mae'r darnau gwaith hyn yn eithaf cyfyngedig o ran eu hyd ac ansawdd. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn datblygu eu gallu i addasu eu harddull ysgrifennu i weddu i ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd, neu i archwilio ac ymestyn eu syniadau. Ar ychydig o achlysuron, mae disgyblion yn gwneud gwelliannau i'w hysgrifennu trwy ailddrafftio, er enghraifft ychwanegu manylion at eu disgrifiadau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn treulio gormod o amser yn copïo neu'n teipio gwaith heb wella ei gywirdeb neu'i gynnwys.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfarchion ac ymadroddion syml mewn gwersi Cymraeg. Mae disgyblion hyn yn datblygu hyder yn siarad Cymraeg, ac yn cyfleu gwybodaeth bersonol yn briodol, ar y cyfan. Maent yn cydnabod gwerth bod yn amlieithog ac yn ymateb yn gadarnhaol i ddysgu iaith Arwyddion Prydain, ochr yn ochr â'r Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau mathemategol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn cynrychioli cysyniad, fel lluos, mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, ar lafar, gan ddefnyddio deunyddiau go iawn neu ar ffurf lluniau. Ar draws yr ysgol, mae medrau meddwl a rhesymu disgyblion yn datblygu'n dda trwy weithgareddau ymarferol, fel cymharu eu taldra a'u pwysau, neu drafod cartwnau sy'n cyflwyno gwahanol safbwyntiau am syniadau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn 'sgyrsiau am fathemateg' gyda'u hathrawon yn eu gwaith ysgrifenedig, ac yn defnyddio iaith yn gywir i esbonio'u syniadau. Mae cymhwysio medrau rhifedd gan ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion hyn yn dysgu am arbed arian yn yr argyfwng costau byw trwy gyfrifo cost rhedeg offer am ddiwrnod. Fodd bynnag, anaml y mae disgyblion mwy abl yn cael her sy'n eu hymestyn yn llawn ac yn profi eu gwydnwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau digidol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn defnyddio technoleg yn fedrus i gofnodi eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hyn yn creu ac yn rheoli ffolderi i drefnu eu gwaith digidol yn effeithlon. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu rhaglenni cyfrifiadur syml. Er enghraifft, mae disgyblion hyn yn rhaglennu eu cerbydau model 'Mars rover' yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn mwynhau defnyddio eu medrau creadigol, artistig a cherddorol ac maent yn falch o'u cyflawniadau. Mae disgyblion iau yn arbrofi â defnyddio pastelau olew i greu eu lluniau trawiadol eu hunain o Oleuni'r Gogledd. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn chwarae offerynnau wedi'u tiwnio, fel iwcailis, gan ddarllen nodiant cerddorol yn gywir. Mae hyn yn helpu datblygu eu hunanhyder ac yn ysbrydoli disgyblion i ddatblygu cariad at gerddoriaeth.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn mynychu'n hapus. Maent yn elwa ar berthnasoedd cadarnhaol gyda staff ac yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os ydynt yn poeni neu'n ddigalon. Maent yn rhyngweithio'n dda iawn â'r oedolion sy'n eu cynorthwyo, ac yn ymateb yn gadarnhaol i system wobrwyo'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn garedig ac yn gwrtais â'i gilydd ac ymwelwyr. Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa ar gymorth ac ymyriadau i'w helpu i reoli eu hemosiynau a manteisio ar y cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar ystod eang o gyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau, fel chwaraeon tîm sy'n cefnogi eu hiechyd corfforol a'u lles. Mae cyfraddau presenoldeb mewn clybiau gweithgareddau ar ôl yr ysgol yn uchel iawn. Mae disgyblion yn elwa ar dir helaeth yr ysgol ac yn defnyddio'r amrywiaeth o gyfarpar, er enghraifft y wal ddringo, yn rheolaidd ac yn frwdfrydig i gefnogi eu datblygiad corfforol ymhellach. Mae grŵp llais y disgybl 'Ysgol Wych' ('Super School') yn gweithio'n galed i hyrwyddo gweithgarwch corfforol a bwyta ac yfed yn iach. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud dewisiadau iach yn eu byrbrydau a'u diodydd y maent yn dod gyda nhw i'r ysgol.

Mae nifer fawr o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o grwpiau llais y disgybl yn hyderus. Mae grwpiau fel y 'Llysgenhadon Gwerthoedd' ('Values Ambassadors') yn hyrwyddo gwahanol werthoedd trwy gydol y flwyddyn ysgol trwy gymryd cyfrifoldeb am arwain gwasanaethau. Mae grwpiau'n hyrwyddo hawliau plant, cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn effeithiol. Maent yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, mae grŵp 'It's Good to Give' yn trefnu digwyddiadau codi arian ac yn rhoi'r arian hwn i elusennau lleol sy'n cael eu hystyried yn bwysig ganddynt. At ei gilydd, mae disgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael cyfleoedd gwerthfawr i wneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol.

Yn y grwpiau blwyddyn iau, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi â brwdfrydedd a gwydnwch, er enghraifft wrth greu ryseitiau ar gyfer llyfr coginio hydref yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn barod i archwilio eu hamgylchedd dysgu ac yn dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau, er enghraifft wrth ddarganfod pa ddeunyddiau sy'n addas i wneud cwch. Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchio'n fawr yn eu gwaith. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, ceir llai o dystiolaeth o ymgysylltiad a dyfalbarhad disgyblion, yn enwedig ymhlith bechgyn hŷn. Er bod llawer o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio a chwblhau tasgau, mae lleiafrif ohonynt yn colli diddordeb yn eu gwaith, ac o ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni'r safonau y maent yn abl i'w cyflawni.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn parchu barn a chyfraniadau pobl eraill, er enghraifft wrth drafod priodoleddau gorau peiriant hedfan ym Mlwyddyn 6. Ar adegau, mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar, ysgrifenedig ac electronig gan oedolion. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol. Nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u dysgu bob amser.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i ailddylunio'i chwricwlwm i gyd-fynd ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a'i gweledigaeth ei hun ar gyfer dysgu a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio arbenigedd yn eithriadol o dda i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o fewn meysydd dysgu a phrofiad, er enghraifft eu medrau cerddorol. Mae'r ddarpariaeth i'r holl ddisgyblion ddatblygu eu gallu cerddorol trwy ddysgu chwarae offerynnau wedi'u tiwnio yn gryfder. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ac yn rhannu eu cwestiynau ymholi gyda rhieni, er mwyn iddynt allu cefnogi diddordebau disgyblion mewn dysgu gartref. Ceir ehangder addas ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o lenyddiaeth, gan gynnwys llyfrau lluniau a storïau cyfoes o Gymru, i symblu dysgu disgyblion yn eu testunau, a darparu cyd-destun cyfoethog ar gyfer eu gwaith ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Ymestynnir hyn ymhellach trwy brosiect cwricwlwm creadigol ac arloesol yr ysgol, sef 'Gilwern Around the World'. Mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu cyd-destunol. Er enghraifft, ar eu taith rithwir o gwmpas y byd, mae disgyblion yn dysgu am fathau o ffydd, fel Hindwâeth, pan fyddant yn 'cyrraedd' India ac yn datblygu eu medrau gwyddonol trwy arbrofion toddi rhew, wrth 'ymweld' ag Antarctica. Mae ymwelwyr o'r UK Antarctica Heritage Trust yn helpu disgyblion i ddysgu am anifeiliaid, fel pengwinaid, wrth iddynt eu gwyllo trwy we-gamera byw. Mae hyn yn helpu datblygu eu gwybodaeth am y byd ehangach yn llwyddiannus, yn ogystal â dyfnhau eu dealltwriaeth o themâu pwysig, fel cynaliadwyedd, diwylliant, amrywiaeth a dinasyddiaeth. Mae prosiectau ysgol gyfan, fel wythnos fenter, yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith hefyd.

Mae athrawon yn defnyddio adnoddau yn yr ardal leol yn briodol i gefnogi dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â Chastell Rhaglan i wyllo perfformiad dwyieithog o ddrama, fel rhan o'u hastudiaeth llythrennedd o chwedlau o'r Mabinogi. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu gwybodaeth a'u medrau presennol. Mae athrawon yn defnyddio sesiynau Cymraeg i helpu datblygu rhuglder disgyblion mewn patrymau iaith. Ochr yn ochr â darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg, mae athrawon wrthi'n dechrau cyflwyno disgyblion i iaith Arwyddion Prydain. Mae hyn yn dechrau codi ymwybyddiaeth disgyblion am sut mae ieithoedd yn gweithio, a rôl ystumiau wrth gyfathrebu â phobl eraill.

Mae staff yn nodi cyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygu medrau trawsgwricwlaidd, gyda rhifedd yn gryfder sy'n dod i'r amlwg. Mae addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn gyffredinol yn datblygu eu medrau digidol yn raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen cynnar disgyblion yn dda. Mae staff yn darllen ar goedd i ddisgyblion, ac yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol, gan annog disgyblion i darllen er mwynhad a'u cyflwyno i awduron newydd. Maent yn meithrin diwylliant darllen cadarnhaol, er enghraifft trwy wrando ar argymhellion disgyblion am lyfrau i staff eu darllen. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm bob amser yn sicrhau bod addysgu yn adeiladu ar ddysgu blaenrol disgyblion. Mae hyn yn golygu nad oes dilyniant digonol ym medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion bob amser, yn enwedig pan fydd disgyblion hŷn yn gweithio'n annibynnol.

Mae disgyblion yn elwa ar amgylchedd awyr agored helaeth yr ysgol. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu priodol i ddisgyblion archwilio, ymarfer ac ymestyn eu medrau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio'n dda gan ddefnyddio deunyddiau naturiol yn y gegin fwd i greu diodydd. Mae darpariaeth yr ysgol goedwig yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau datrys problemau a medrau corfforol disgyblion, yn ogystal â'u lles.

Mae staff yn mabwysiadu ymagwedd gyffredin at drefnu addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, sy'n anelu at ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr llawn cymhelliant ac annibynnol. Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys staff yn gweithio gyda grwpiau bach o ddisgyblion, tra bod disgyblion eraill yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu annibynnol wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw'r tasgau hyn yn ddigon heriol ar gyfer disgyblion hŷn ac nid ydynt yn atgyfnerthu eu dysgu blaenorol nac yn ymestyn eu medrau'n ddigon da. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli ffocws, yn enwedig bechgyn, ac maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu dysgu.

Mae ymagwedd yr ysgol at addysgu disgyblion o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 2 yn effeithiol, ar y cyfan. Mae staff yn datblygu'n dda fel tîm i ddarparu profiadau difyr ar gyfer disgyblion dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd. Mae'r rhyngweithio rhwng oedolion a disgyblion yn gadarnhaol, yn anogol ac yn hamddenol. Mae oedolion yn cefnogi cynnydd disgyblion gyda chwestiynau defnyddiol, ac yn caniatáu digonedd o amser i ddisgyblion ymateb a mynegi eu barn. Ceir ychydig o enghreifftiau o ddisgyblion yn ysgogi eu chwarae eu hunain, er enghraifft i godi tyrau a phontydd o flociau. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o brofiadau dysgu, gan gynnwys gweithgareddau creadigol, eu hysgogi a'u cyfarwyddo gan oedolion.

Mewn ychydig o feysydd dysgu, mae athrawon o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn defnyddio strategaethau holi effeithiol i archwilio dealltwriaeth disgyblion ac ymestyn eu dysgu, er enghraifft mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Fodd bynnag, mae ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu o fewn yr ystod oedran hon yn rhy amrywiol, ar y cyfan. Nid yw bob amser yn cynorthwyo disgyblion i wneud y cynnydd y gallent yn datblygu eu medrau neu mewn datblygu ymddygiadau dysgu effeithiol. Nid yw athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol, ac mae disgyblion yn aml yn ansicr am ddiben eu dysgu. Nid yw lefel yr her neu gyflymdra'r dysgu bob amser yn gweddu i anghenion datblygiadol disgyblion yn ddigon da. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu gormod o sgaffaldiau i gefnogi dysgu disgyblion, sy'n cyfyngu ar eu datblygiad i fod yn ddysgwyr gwydn ac annibynnol. Yn aml, mae trefniadaeth ystafelloedd dosbarth, arferion a gweithgareddau yn arwain at golli amser dysgu a diffyg cymhelliant, yn enwedig ymhlith disgyblion hŷn.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn amgylchedd anogol a gofalgwr lle mae staff a disgyblion yn dangos parch ar y ddwy ochr fel bod pob aelod o'r gymuned yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Mae darpariaeth i gefnogi iechyd emosiynol a lles disgyblion yn effeithiol, ac mae staff yn cynllunio cymorth ychwanegol lle mae angen cryfhau gwydnwch emosiynol disgyblion. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn â theuluoedd, y gymuned a'r feithrinfa ar y safle.

Ceir systemau cadarn ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ymagwedd tîm sy'n cynnwys mewnbwn gwerthfawr gan gynorthwywyr addysgu.

Mae'r aelodau staff hyn yn monitro disgyblion yn agos ac yn darparu cymorth amserol. Mae'r arweinydd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn cysylltu'n agos ag asiantaethau allanol i gynllunio ymyriadau a chymorth i gyflymu dysgu a chynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da o ran rhoi cynlluniau datblygu unigol ar waith i ymateb i ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol yn ddiweddar. Mae'r trefniadau i fonitro patrymau presenoldeb mewn disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol, ac o ganlyniad, rhoddwyd mwy o gymorth ar waith i wella presenoldeb unigolion. Mae trefniadau i ddadansoddi a chefnogi presenoldeb yr holl ddisgyblion yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall buddion ffordd iach o fyw. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn gorfforol egniol amser chwarae. Yn ychwanegol, ceir ystod dda o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd a phrofiadau rheolaidd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fwyta'n iach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael dylanwad cryf ar ddewisiadau byrbryd disgyblion amser egwyl.

Ceir ffocws ysgol gyfan cryf ar bwysigrwydd hyrwyddo hawliau a gwerthoedd disgyblion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion werthfawrogiad da o gydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am bwysigrwydd ymddwyn fel dinasyddion gweithgar a derbyn cyfrifoldebau yn synhwyrol. Mae ystod eang o grwpiau yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd arwain gwerthfawr ac yn chwarae rhan weithredol yng ngwaith a bywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae grŵp codi arian 'It's Good to Give' yn cefnogi cyfraniadau elusennol sylweddol a gynhyrchir trwy brosiect 'Gilwern Around the World'.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus ac yn cynorthwyo disgyblion i archwilio materion yn gysylltiedig â gwerthoedd penodol. Mae'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion yn dda i ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae disgyblion, staff a llywodraethwyr wedi codi eu hymwybyddiaeth am gynhwysiant trwy eu hyfforddiant diweddar i ddysgu am awtistiaeth. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth cymuned yr ysgol o amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae disgyblion yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud os ydynt yn gweld rhywbeth sy'n eu poeni neu'n eu gofidio nhw. Mae staff yn cefnogi hyn trwy gyfathrebu effeithiol â rhieni pan fydd unrhyw broblemau'n digwydd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a pherfformiadau, fel strafagansa awyr agored poblogaidd yn ystod yr haf, sy'n arddangos medrau cerddoriaeth, dawn, celf a drama disgyblion. Cefnogir hyn yn eithriadol o dda gan rieni a'r gymuned ehangach.

Mae'r ysgol wedi achub ar gyfleoedd i ddisgyblion archwilio profiadau yn gysylltiedig â gwaith trwy brosiect 'Gilwern Around the World'. Er enghraifft, bu Blwyddyn 6 yn cyfweld â swyddog cyfathrebu o gwmini cyllid mawr yn Singapôr i archwilio beth roedd eu swydd yn ei gynnwys. Hefyd, maent wedi creu cysylltiadau buddiol â sefydliad addysg uwch.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf, ar y cyfan, ac mae trefniadau i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion yn y rhan fwyaf o agweddau. Nodwyd problem ynghylch diogelwch ar y safle yn ystod yr arolygiad. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r broblem, ac mae wrthi'n mynd i'r afael â hi mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Maent wedi gweithio'n greadigol ac yn ystyriol i ddylunio cwricwlwm sy'n gweddu i ddyheadau ac ethos y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu, ac yn elwa'n dda ar ddarpariaeth arbenigol, ymweliadau ac ymwelwyr i ymestyn y cwricwlwm. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer hapusrwydd a lles disgyblion yn yr ysgol. Maent yn sicrhau amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i bawb. At ei gilydd, mae arweinwyr yn sefydlu a chynnal diwylliant diogelu cadarnhaol.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi ymrwymo i les staff. Mae hyn yn ategu ethos tîm cryf lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael cyfle i gyfrannu'n bwrpasol at fywyd a gwaith yr ysgol. Ceir trefniadau defnyddiol i gefnogi dysgu proffesiynol, gyda'r ysgol yn cymryd rôl arweiniol yng nghlwstwr ysgolion lleol Y Fenni. Mae'r cydweithio hwn yn cefnogi arfer gyffredin ar draws ysgolion lleol i helpu disgyblion i drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae staff ym mhob rôl yn yr ysgol yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu a datblygu'n broffesiynol, er enghraifft trwy ddatblygu medrau Cymraeg fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i wella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn rhannu cyfrifoldeb arwain am yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod gan yr ysgol arweinyddiaeth gyson, er enghraifft pan fydd y pennaeth parhaol yn ymgymryd â gweithgareddau rhanbarthol a chenedlaethol o fewn y system addysg yng Nghymru. Ceir trefniadau priodol i ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau ar draws yr ysgol, a chyfleoedd gwerth chweil i staff ddatblygu eu medrau arwain. Mewn ychydig o achosion, mae staff yn y rolau arwain hyn yn gwneud gwahaniaeth nodedig i gynnydd a phrofiad ysgol disgyblion. Er enghraifft, mae arweinyddiaeth effeithiol y strategaeth diwygio anghenion dysgu ychwanegol wedi bod yn fuddiol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynharach o ran datblygu ychydig o rolau arwain eraill, ac nid ydynt yn cael digon o effaith ar wella addysgu a dysgu ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ddulliau addas i werthuso llawer o agweddau ar ei gwaith a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rhoi strategaethau gwella ar waith yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddefnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol, amser cyfarfod staff a phrosesau rheoli perfformiad. Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o lawer o gryfderau'r ysgol ac o'r gwahaniaeth y mae rhannau o'r strategaeth wella wedi'i wneud, er enghraifft mewn datblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gan yr ysgol farn rhy gadarnhaol am agweddau ar ei darpariaeth. Nid yw arweinwyr wedi nodi diffygion pwysig yn ansawdd yr addysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion yn yr ystod oedran 7-11. Mae diffyg trylwyrdd o ran trefniadau i werthuso'r addysgu, ac nid ydynt yn nodi achosion o addysgu aneffeithiol sy'n cyfyngu ar gynnydd disgyblion a'u hymgysylltiad â dysgu. At ei gilydd, nid oes gan arweinwyr a staff yn yr ystod oedran hon ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer cynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddiwyd. Maent yn defnyddio cyllid ychwanegol fel y grant datblygu disgyblion yn dda, er enghraifft i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu chwarae offeryn cerddorol wedi'i diwnio. Mae'r ysgol wedi gweithio'n arloesol gyda'r clwstwr lleol i benodi bwrsar y clwstwr i sicrhau effeithlonrwydd ariannol, cael cyllid grant ychwanegol a chefnogi lles staff a disgyblion ymhellach.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn effeithiol â rhieni. Ceir cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i rieni gymryd rhan yn nhaith ddysgu eu plentyn, a'i chefnogi, er enghraifft trwy gyfathrebu digidol rheolaidd a thrwy fynychu digwyddiadau dathliadol gwerthfawr yn yr ysgol.

Mae gan lywodraethwyr brofiad addas, ac maent yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn cefnogi gweithgareddau hunanwerthuso'r ysgol yn briodol, er enghraifft trwy helpu adolygu darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth eang o flaenoriaethau cenedlaethol mewn addysg, a'r modd y mae'r datblygiadau hyn yn llywio nodau gwella'r ysgol. Trwy eu rolau ehangach fel cynghorwyr cymuned, maent yn annog disgyblion i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned leol, er enghraifft trwy wahodd disgyblion i gyfrannu at gynllun dan arweiniad y gymuned, a thrwy gynnig eu hawgrymiadau ynglŷn â sut i ddatblygu parc sglefrio. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u rolau fel dinasyddion. Mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth addas o'u cyfrifoldebau statudol o ran diogelu, ond nid ydynt yn sicrhau bod trefniadau i gefnogi bwyta ac yfed iach y disgyblion yn gadarn.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2022